gunsmoke communications
PR | MEDIA | MARKETING



**MAE gefeilliaid creadigol a roddodd wên ar wynebau pobl y dref yn ystod y cyfnod clo wedi coroni blwyddyn hynod drwy ennill gwobr.**

Yn ystod cyfnod clo cyntaf y Coronafeirws, dechreuodd y gefeilliaid talentog Rachel a Ruth Williamson wneud golygfeydd wedi eu gwau a'u crosio, a'u dodi ar flychau post yn y Rhyl.

Daeth y syniad ar ôl i'r cyn-heddwas a 'yarn bomber' brwd weld rhes o bobl ddigalon yr olwg y tu allan i'w fferyllfa leol a dechreuodd feddwl sut i godi eu calonau.

Cafodd y syniad o wneud gorchuddion blwch post, gyda'r cyntaf yn ymddangos ar flwch yn Lynton Walk. Tyfodd y prosiect yn fawr a flwyddyn yn ddiweddarach, mae Rachel a Ruth wedi creu mwy nag 80 o orchuddion ar gyfer blychau post yn y Rhyl a'r trefi a phentrefi o gwmpas.

Mae pob gorchudd yn cymryd rhwng 24 awr a nifer o ddyddiau i'w gwneud a rhyngddynt, mae'r chwiorydd wedi creu amrywiol olygfeydd yn cynnwys cestyll, cychod, gwylanod y môr, milwyr, twrch daear a hyd yn oed octopws. Mae Rachel yn gwau ac mae Ruth yn helpu i wneud y sgtrwythurau cymhleth fel cestyll. Roedd yr olygfa ddiweddaraf yn cynnwys EM y Frenhines ac aeth allan mewn pryd i ddathlu pen-blwydd y frenhines.

**Mwy/…**

+44 (0) 1745 889577
+44 (0) 7712 475576
rachael@gunsmokecommunications.co.uk
www.gunsmokecommunications.co.uk
@GunsmokeComms
GunsmokeCommunications

Daeth ymdrechion y ddwy i sylw'r genedl ac mae Rachel wedi anfon ei phatrwm i weuwyr brwd ledled y wlad. Mae eu hymdrechion i wneud i bobl wenu nawr wedi eu cydnabod yn ffurfiol gyda gwobr arbennig gan Gyngor Tref y Rhyl.

Meddai Maer y Rhyl, y Cynghorydd Diane King: "Mae Rachel a Ruth wedi gwneud i bobl wenu yn ystod cyfnod anodd a heriol iawn. Roedd pobl yn defnyddio eu sesiwn ymarfer yn ystod y cyfnod clo i chwilio am y gorchuddion, gan fynd allan o'u ffordd i gael hyd iddyn nhw.

"Mae'r gwaith sy'n mynd i mewn iddyn nhw a'r manylion yn hynod, ac maent wedi rhoi'r Rhyl ar y map. Roedd yn addas bod y Cyngor Tref yn cydnabod eu llwyddiannau felly roeddwn yn falch iawn o gyflwynor tystysgrifau arbennig yma iddyn nhw."

Dywedodd Rachel bod y prosiect wedi 'cymryd eu bywydau drosodd yn llwyr', ond nid oedd yn meddwl y byddent yn stopio nawr.

"Mae pobl wedi bod yn garedig iawn ac rydym wedi derbyn llawer iawn o roddion o wlân, i'r pwynt na fedrwn fynd i mewn i'r ystafell fyw. Rydym am barhau am y tro – rydym yn cael amser gwych. Ein ffefryn, mae'n debyg, yw'r un gyda Dave, y wylan. Mae wedi cael dipyn o brofiadau ac wedi dod yn ôl i gael ei drwsio ambell waith, ond mae'n dal gyda ni."

Dywedodd Rachel bod y Post Brenhinol wedi bod yn wych, a bod pobl hyd yn oed wedi gadael blodau a bisgedi i ddweud diolch.

"Mae'r ymateb wedi bod yn anhygoel, ac mae ein gorchuddion nawr yn Amgueddfa Sir Ddinbych felly mi fyddwn yn rhan o hanes. Hoffem ddiolch i bawb am eu cefnogaeth ac i'r Maer am ein tystysgrifau. Rydym wedi ein geni a'n magu yn y Rhyl, felly mae'n golygu llawer i gael ein cydnabod gan y Cyngor Tref," ychwanegodd.

**Capsiwn:** O'r chwith i'r dde: Rachel, Maer y Rhyl, y Cynghorydd Diane King, a Ruth gyda'u gwobrau gan y Cyngor Tref.

**Diwedd**